WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llywodraethu Da wrth Benderfynu ar Newidiadau Sylweddol i Wasanaethau – **Cyngor Sir Bro Morgannwg**


Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 359A2017

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Y tîm a gyflawnodd y gwaith oedd Catryn Holzinger, Rob Hathaway, Alison Lewis, Sam Clements, Steve Barry a Non Jenkins o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor fframwaith corfforaethol clir ar gyfer datblygu a phenderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau, a threfniadau effeithiol i gefnogi cyflawniad hynny, yn ogystal â rhai cyfleoedd i gryfhau'r ymgysylltiad â rhanddeiliad.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwelliannau 5

Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor fframwaith corfforaethol clir ar gyfer datblygu a phenderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau, a threfniadau effeithiol i gefnogi cyflawniad hynny, yn ogystal â rhai cyfleoedd i gryfhau'r ymgysylltiad â rhanddeiliad 6

Mae Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau y Cyngor yn darparu fframwaith ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau ac mae'n cefnogi cyflawniad hynny 6

Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau clir a llywodraethu cryf ar raglenni a phrosiectau yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor ar newidiadau sylweddol i wasanaethau 8

Mae proses gwneud penderfyniadau y Cyngor yn cynnwys trefniadau arfarnu dewisiadau ac mae adroddiadau yn nodi gwybodaeth fanwl wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau 10

Mae gan y Cyngor drefniadau corfforaethol effeithiol ar gyfer ymgynghori â rhanddeiliaid, ond ceir rhai enghreifftiau lle gellid cryfhau'r ymgynghori 11

Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gwneud darpariaeth glir ar gyfer monitro effaith newidiadau sylweddol i wasanaethau ac, os cânt eu defnyddio'n systematig, dylent helpu i sicrhau bod y gwaith monitro yn dryloyw ac wedi ei gynnwys yn gyson mewn newidiadau i wasanaethau 14

Mae'r Cyngor yn dysgu o brofiad ei newidiadau diweddar i wasanaethau ac mae'n gwella ei drefniadau llywodraethu cysylltiedig o ganlyniad i hynny 15

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 ‘Governance is about how public bodies ensure that they are doing the right things, in the right way, for the right people, in a timely, inclusive, open, honest and accountable manner. It comprises the systems and processes, and cultures and values, by which public bodies are directed and controlled and through which they account to, engage with and, where appropriate, lead their communities’[1].

2 Mae llywodraethu da yn hanfodol ar gyfer gwarchod arian cyhoeddus yn effeithiol a pharhau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon y mae gan bobl ffydd ynddynt. Mae’r hinsawdd ariannol bresennol a setliadau llai ar gyfer llywodraeth leol yn ogystal â galw cynyddol am rai gwasanaethau yn golygu bod pob cyngor yn debygol o barhau i fod angen gwneud penderfyniadau ynghylch sut y caiff gwasanaethau eu trefnu yn y dyfodol a faint o ddarpariaeth gwasanaeth fydd ar gael. Mae’n briodol bod cyrff cyhoeddus yn parhau i geisio gwella. Gwneir newidiadau bach, bob yn dipyn, i ddarpariaeth gwasanaeth, ar lefel rheolwyr a swyddogion gweithredol yn rhan o benderfyniadau gweithredol arferol. Fodd bynnag, mae llywodraethu da wedi ei gefnogi gan gynllunio effeithiol a phrosesau cadarn yn allweddol wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau. Mae penderfyniadau o’r fath yn aml yn ddadleuol, yn creu llawer o ddiddordeb lleol a gallant gael effaith sylweddol ar yr unigolion a’r grwpiau yr effeithir arnynt.

3 O fis Ebrill 2016, mae’n ofynnol i gynghorau gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) a’r Canllawiau Statudol cysylltiedig. Mae’r Canllawiau Statudol yn nodi: ‘Gyda'i gilydd, bwriedir i'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a ddarperir gan y Ddeddf gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain’.[2] Mae’r ddeddfwriaeth hon yn pwysleisio pwysigrwydd llywodraethu effeithiol wrth gyflawni amcanion llesiant.

4 Mae pwyslais yr adolygiad hwn ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu Cyngor Bro Morgannwg (y Cyngor) ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau. Rydym yn diffinio hyn fel unrhyw newid sylweddol wrth ddarparu gwasanaethau a/neu unrhyw newid sylweddol ym mhrofiad defnyddwyr gwasanaeth allanol o’r gwasanaethau. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, newidiadau sylweddol i’r modd y caiff gwasanaeth ei ddarparu, lefel y gwasanaeth a ddarperir, i ba raddau y mae’r gwasanaeth ar gael neu gost y gwasanaeth.

5 Gan ystyried fframwaith diwygiedig y Chartered Institute of Public Finance and Accountancy (CIPFA) sef ‘Delivering good governance in local government’ fel safon briodol, mae’r adolygiad hwn yn rhoi llinell sylfaen i’r Cyngor, ar gyfer

[1] **CIPFA/SOLACE Delivering Good Governance in Local Government: Framework 2007**

[2] **Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol, Canllawiau Statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015**, Llywodraeth Cymru

cynllunio gwelliannau eraill. Yn yr asesiad hwn, a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2016, i lywio ein hasesiad o drefniadau cyffredinol y Cyngor ar gyfer datblygu a phenderfynu ar newidiadau i wasanaethau gwnaethom edrych ar agweddau ar drefniadau gwneud penderfyniadau yn gysylltiedig ag amrywiaeth o gynigion sylweddol i newid gwasanaethau. Roedd yr enghreifftiau o newidiadau i wasanaethau y gwnaethom eu hystyried yn cynnwys:

- adolygu'r ddarpariaeth llyfrgell;
- gostwng cyllideb pecynnau gofal;
- gwasanaethau bws a gynorthwyir a chludiant ysgol y telir ffi amdanynt ar fysiau a gynorthwyir;
- adolygu swyddogaeth cefn gwlad;
- parcio ceir; a
- goleuadau stryd.

6 Ni wnaethom edrych yn fanwl ar bob un o'r penderfyniadau i newid gwasanaethau unigol, ond yn hytrach eu defnyddio fel enghreifftiau i gasglu tystiolaeth oddi wrthynt a llywio sut y mae'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau ynghylch newidiadau i wasanaethau.

7 Yn yr adolygiad hwn, daethom i'r casgliad fod gan y Cyngor fframwaith corfforaethol clir ar gyfer penderfynu a chyflawni newidiadau i wasanaethau ynghyd â threfniadau effeithiol ar gyfer cefnogi eu cyflawniad, yn ogystal â rhai cyfleoedd i gryfhau'r ymgysylltiad â rhanddeiliaid.

# Cynigion ar gyfer gwella

Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Dylai'r Cyngor gynnwys rhagor o wybodaeth ym Mlaenraglenni Gwaith y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu am fanylion a diben eitemau sydd ar ddod (gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, gynigion i newid gwasanaethau) i wella tryloywder trefniadau a'r cyfleoedd i randdeiliaid fod yn rhan o wneud penderfyniadau. |
| C2 | Dylai'r Cyngor barhau i ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar bob newid i wasanaethau pan ei bod yn debygol y bydd effaith amlwg ar y cyhoedd a/neu ddefnyddwyr gwasanaeth, neu sicrhau bod rhesymeg glir a thryloyw ar gyfer peidio â gwneud hynny wedi'i chofnodi. |

# Adroddiad manwl

## Mae gan y Cyngor fframwaith corfforaethol clir ar gyfer datblygu a phenderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau, a threfniadau effeithiol i gefnogi cyflawniad hynny, yn ogystal â rhai cyfleoedd i gryfhau'r ymgysylltiad â rhanddeiliad

### Mae Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau y Cyngor yn darparu fframwaith ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau ac yn cefnogi cyflawniad hynny

8 Yn 2014 lluniodd y Cyngor ei Raglen Ail-lunio Gwasanaethau i fodloni'r ddwy her o gynnydd tebygol yn y galw am wasanaethau ac adnoddau yn prinhau. Dechreuodd weithredu ei raglen ail-lunio gwasanaethau yn ystod 2015. Nod gyffredinol y rhaglen ail-lunio gwasanaethau yw:

> 'ail-lunio'r Cyngor er mwyn ei alluogi i gyflawni anghenion dinasyddion Bro Morgannwg yn y dyfodol, yng nghyd-destun heriau ariannol digyffelyb'.

9 Mae'r rhaglen ail-lunio gwasanaethau wedi nodi'r amcanion canlynol hefyd:

- 'nodi dulliau eraill o ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi canlyniadau gwell i drigolion a/neu fodd mwy effeithlon o ddarparu;
- bodloni heriau ariannol yn y dyfodol gan liniaru effaith toriadau ar ddefnyddwyr gwasanaeth; a
- datblygu'r Cyngor a'i bartneriaid i sicrhau eu bod yn gallu bodloni heriau yn y dyfodol'.

10 Ym mis Ionawr 2015 fe wnaethom adolygu dull y Cyngor o ail-lunio gwasanaethau. Daethom i'r casgliad ei fod yn mabwysiadu prosesau priodol ar gyfer sbarduno gweddnewid. Wrth ddechrau ar y rhaglen ail-lunio gwasanaethau, adolygodd y Cyngor bob un o'i feysydd gwasanaeth er mwyn nodi cyfleoedd i gyflawni canlyniadau gwell a/neu arbedion ariannol. Ystyriwyd gwybodaeth o'r adolygiadau gan 'Grŵp Her' mewnol, a gadeiriwyd gan Arweinydd y Cyngor, a chyflwynwyd cynigion i'w datblygu ac yna eu gweithredu yng nghyfran 1 (2015-16) a chyfran 2 (2016-17)[3].

11 Ym mis Awst 2016, nododd ein Hasesiad Corfforaethol hefyd fod y Cyngor wedi gweithredu nifer o fodelau darparu a'i fod yn parhau i fwrw ymlaen â newidiadau i wasanaethau drwy'r rhaglen ail-lunio gwasanaethau. Yn yr un modd, yn yr

[3] Aelodau'r Bwrdd Her yw'r Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd a Deiliad Portffolio'r Cabinet. Cefnogir y grŵp gan y Rheolwr Gyfarwyddwr, Pennaeth yr adran Gyllid, y Pennaeth Perfformiad a Datblygiad, y Pennaeth Adnoddau Dynol a Chyfarwyddwr Gweithredol Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro.

adolygiad hwn clywsom fod y Cyngor wedi penderfynu dilyn dull ymarferol o newid gwasanaethau. Mae'r Cyngor o'r farn y gallai gwahanol fodelau darparu fod yn briodol ar gyfer gwahanol wasanaethau ac y bydd yr hyblygrwydd hwn yn llesol. Er bod y Cyngor yn defnyddio dull hyblyg, mae'r rhaglen ail-lunio gwasanaethau yn darparu fframwaith ar gyfer penderfyniadau ar newid sylweddol i wasanaethau ac yn nodi dull wedi'i strwythuro o ddarparu gwasanaeth.

12 Wrth i'r rhaglen ail-lunio gwasanaethau ddatblygu, mae'r Cyngor wedi parhau i ystyried sut y gellid cynnwys cyfleoedd eraill, fel y cynigion ar gyfer arbedion refeniw blynyddol, yn y rhaglen. O'r newidiadau i wasanaethau y gwnaethom eu hystyried yn rhan o'r adolygiad hwn, rheolwyd adolygiadau'r Cyngor o'r ddarpariaeth llyfrgell, goleuadau stryd a gostwng cyllideb y pecynnau gofal (yn rhan o raglen cyllideb y gwasanaethau cymdeithasol) drwy'r rhaglen ail-lunio gwasanaethau.

13 Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu Canllawiau Achos Busnes ar gyfer y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau. Mae'r canllawiau yn nodi ei bod yn ofynnol i bob prosiect ail-lunio gwasanaethau ddisgrifio sut y bydd yn cyfrannu at amcanion cyffredinol y rhaglen. Mae tri amcan y rhaglen ail-lunio gwasanaethau wedi eu hadlewyrchu yn glir yn ffrydiau gwaith penodol y rhaglen. Er enghraifft, ceir ffrwd waith 'Cynghorau Tref a Chymuned' sydd wedi ei sefydlu â'r nod o ddatblygu perthynas â'r sefydliadau hynny, a'r capasiti oddi mewn iddynt, i helpu i gyflawni heriau darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae Canllawiau Achos Busnes y rhaglen ail-lunio gwasanaethau hefyd yn nodi'r glir y dylid pennu amcanion CAMPUS[4] ar gyfer prosiectau.

14 Er bod y rhan fwyaf o'r enghreifftiau y gwnaethom edrych arnynt yn dod o gyfnod cynharach na'r canllawiau, roeddent hwythau hefyd yn cynnwys amcanion a chysylltiadau â blaenoriaethau corfforaethol ehangach. Er enghraifft, mae buddsoddi grantiau Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Gwella Mynediad at yr Arfordir yn gysylltiedig ag amcanion corfforaethol. Mae datblygu twristiaeth a chyfleoedd masnachol ar safleoedd cefn gwlad hefyd yn dangos sut y mae'r Cyngor yn ceisio cysylltu gweithgareddau â blaenoriaethau ehangach. Cyflawnodd y Cyngor arbedion yn y Gwasanaeth Cefn Gwlad a ailfuddsoddwyd mewn swydd Swyddog Cyfleoedd Masnachol. Tasg deiliad y swydd oedd datblygu cyfleoedd sy'n cynyddu gweithgareddau hamdden a thwristiaeth ym Mro Morgannwg a bod o fudd i'r economi leol.

15 Cyfeirodd y Cyngor at y rhaglen ail-lunio gwasanaethau yn ei ymgynghoriadau ar ei gyllideb ar gyfer 2015-16 a 2016-17. Gofynnodd ymgynghoriad 2016-17 gwestiwn cyffredinol ynghylch pa un a oedd yr ymatebwyr yn cytuno bod angen newid sylweddol i'r modd y mae'r Cyngor yn gweithredu er mwyn gwneud newidiadau. Roedd hefyd yn cynnwys tri chwestiwn penodol ar greu incwm a chodi tâl, a throsglwyddo gwasanaethau i'r gymuned. Mae'r Cyngor hefyd yn ystyried sut

[4] (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol)

y bydd ei arolwg Barn y Cyhoedd mwy diweddar yn llywio datblygiad y rhaglen ail-lunio gwasanaethau.

16 Mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Deddf LlCD) yn cael eu hadlewyrchu yn y modd y mae'n gwneud penderfyniadau. Yn benodol, adolygodd y Cyngor ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2016-2020, gan nodi pedwar 'canlyniad llesiant' arfaethedig, ynghyd ag wyth o 'amcanion llesiant'. Mae'r cynllun diwygiedig hefyd yn disgrifio sut y bydd gweithgareddau sydd wedi eu cynllunio yn cyfrannu at yr amcanion llesiant ar gyfer Cymru. Mae'r Cyngor wedi ailstrwythuro ei bwyllgorau craffu ac wedi datblygu adroddiadau perfformiad integredig, wedi eu cyfochri â'i amcanion llesiant. Mae hyn wedi ei gynllunio i sicrhau bod gwaith craffu yn cael ei gyflawni ar weithgareddau yng nghyd-destun ehangach y modd y maent yn cyfrannu at amcanion llesiant a chanlyniadau. Mae'r Cyngor hefyd yn ystyried newid fformat adroddiadau'r Cabinet ac mae'n ystyried sut y gall gyfeirio at 'bum ffordd o weithio' Deddf LlCD mewn adroddiadau cyflwyno (gweler paragraff 3)[5]. Dylai datblygu cynaliadwy a sicrhau pwyslais ar y pum ffordd o weithio gael effaith gadarnhaol ar wneud penderfyniadau i newid gwasanaethau.

17 Mae'r Cyngor yn datblygu perthynas rhwng Deddf LlCD a'r rhaglen ail-lunio gwasanaethau. Mae dogfen y Cyngor 'Collaborative Working Guide for Managers', (rhan o Ganllawiau Achos Busnes y rhaglen ail-lunio gwasanaethau) yn nodi ei bod yn ofynnol i reolwyr ddilyn pecyn cymorth rheoli prosiect y Cyngor ar gyfer unrhyw brosiect cydweithredol ac mae hyn yn cynnwys archwilio Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a Rhestr Wirio Cynaliadwyedd. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai fod cyfleoedd i ddiweddaru'r 'Collaborative Working Guide for Managers' a Chanllawiau Achos Busnes y rhaglen ail-lunio gwasanaethau er mwyn adlewyrchu Deddf LlCD a'r pum ffordd o weithio.

## Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau clir a llywodraethu cryf ar raglenni a phrosiectau yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor ar newidiadau sylweddol i wasanaethau

18 Mae trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd y Cyngor ar gyfer penderfyniadau ar newidiadau i wasanaethau yn glir ac mae'r uwch swyddogion a'r aelodau yn eu deall yn dda. Mae'r Cyngor wedi cymryd camau hefyd i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r rhaglen ail-lunio gwasanaethau a'r gwaith sy'n cael ei ddatblygu drwyddo. Yn 2015, cynhaliodd y Cyngor ymgysylltiad manwl â'r cynghorwyr a'r staff i esbonio'r rhesymeg am y rhaglen ail-lunio gwasanaethau ac i gael safbwyntiau a syniadau i gefnogi gweithrediad y newid. Caiff gwybodaeth a

[5] Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r canllawiau statudol ategol yn nodi pum ffordd o weithio y mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus eu hystyried wrth weithredu datblygu cynaliadwy, sef: hirdymor, integreiddio, cydweithredu, atal a chyfranogi.

phapurau Bwrdd y rhaglen ail-lunio gwasanaethau eu rhoi ar gael ar fewnrwyd y Cyngor ac mewn dogfennau briffio.

19 Ceir strwythur llywodraethu clir ar gyfer y rhaglen ail-lunio gwasanaethau. Sefydlodd y Cyngor Fwrdd y Rhaglen, sy'n cyfarfod bob pedair i chwe wythnos[6]. Nodir swyddogaethau a chyfrifoldebau yn nogfennau canllawiau rhaglen ail-lunio gwasanaethau. Er enghraifft mae'r broses datblygu achos busnes yn nodi bod Bwrdd Rhaglen, Cabinet a Chraffu yn cymeradwyo ac yn rhoi sicrwydd ar gamau allweddol penodedig gan gynnwys y camau achos amlinellol strategol, achos busnes amlinellol ac achos busnes terfynol.

20 Mae'r Cabinet yn gweithio'n effeithiol gydag uwch reolwyr i ddatblygu a chyflawni newid i wasanaethau. Er enghraifft, sefydlwyd grŵp adolygu a arweinir gan y Cabinet yn rhan o adolygiad llyfrgelloedd y Cyngor. Roedd yr Arweinydd ac aelod o'r Cabinet yn aelodau o'r grŵp hwn, ynghyd â swyddogion perthnasol o bob rhan o'r sefydliad. Roedd hyn yn sicrhau bod y Cabinet yn cymryd rhan yn y newid i'r gwasanaeth llyfrgelloedd ar gam cynnar.

21 Mae trefniadau craffu hefyd yn gweithredu o fewn fframwaith eglur ac mae'r Cyngor wedi datblygu Swyddi Craffu a Chabinet a Phrotocol Cyfrifoldebau sy'n gwahaniaethu'n eglur rhwng swyddogaeth swyddogion ac aelodau'r Cabinet wrth fynychu cyfarfodydd pwyllgor.

22 Mae'r Cabinet yn ystyried cyfranogiad mewn craffu a pha un a ddylid craffu cyn gwneud penderfyniad. Mae cadeiryddion y pwyllgor craffu hefyd yn cyfarfod ag uwch swyddogion i drafod eitemau ar gyfer eu Blaenraglenni Gwaith. Mae Blaenraglenni Gwaith y Pwyllgor Craffu ar gyfer chwarter cyntaf 2017 yn cynnwys newidiadau i wasanaeth y rhaglen ail-lunio gwasanaethau.

23 Nodir trefniadau llywodraethu hefyd drwy ystod o ddogfennau gan gynnwys Cyfansoddiad y Cyngor, Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol. Mae'r Cyngor wedi datblygu fformat adroddiad safonol hefyd ar gyfer adroddiadau i Aelodau sy'n cynnwys cyfeiriad at sylwadau yn ymwneud ag adnoddau (cyllid a chyflogaeth), cyfreithiol, cynaliadwyedd, cydraddoldeb (gan gynnwys y Gymraeg), trosedd ac anrhefn, cysylltiadau â blaenoriaethau corfforaethol ac ymgynghori (gan gynnwys ymgynghori ag aelodau wardiau). Mae disgwyliadau sy'n deillio o Ddeddf LlCD hefyd wedi eu cyflwyno i brosesau cynllunio corfforaethol y Cyngor ac yn 2016 maent yn cael eu hintegreiddio, fel egwyddorion, â chynlluniau gwasanaeth.

24 Mae 'Collaborative Working Guide for Managers' y Cyngor yn nodi disgwyliad clir ei bod yn ofynnol bod gan brosiectau cydweithredol drefniadau llywodraethu cryf o'r cychwyn cyntaf ac y bydd diben y prosiect yn effeithio ar y dewis o drefniadau llywodraethu. Mae hefyd yn nodi y dylid cael cyngor bob amser gan swyddogion

[6] Aelodau Bwrdd y Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau yw'r Arweinydd, y Rheolwr Gyfarwyddwr (Noddwr y Rhaglen), y Pennaeth Perfformiad a Datblygu (Cyfarwyddwr y Rhaglen), y Tîm Rheoli Corfforaethol, y Pennaeth Adnoddau Dynol a Chyfarwyddwr Gweithredol Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro.

cyllid, cyfreithiol ac adnoddau dynol wrth sefydlu unrhyw broses gydweithredol i sicrhau cydymffurfiad â gofynion perthnasol a lleihau risg i'r Cyngor.

25 Dywedodd swyddogion wrthym am amrywiaeth o weithgareddau hyfforddiant staff i gefnogi cyflawni'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau a gweithgareddau newid ehangach. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant penodol ar gyfer rheolwyr prosiect cyfran un a dau yn ogystal â dull integredig â Rhaglen Datblygu Rheolwyr y Cyngor, a gynhaliwyd ddiweddaraf yn ystod gwanwyn 2017 gan gwmpasu pynciau fel rheoli contract, rheoli prosiect a chreu cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

26 Mae'r Cyngor wedi darparu hyfforddiant staff helaeth ar Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb o fis Ionawr i fis Ebrill 2016 ac mae'n datblygu model e-ddysgu i helpu swyddogion gynnal yr asesiadau hynny'n effeithiol. Mae Archwiliad Mewnol y Cyngor wedi adolygu ei broses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb ac mae swyddogion cydraddoldeb corfforaethol y Cyngor wedi bod yn gweithio i weithredu gwelliannau (gweler paragraff 44).

## Mae proses gwneud penderfyniadau y Cyngor yn cynnwys dewisiadau ar gyfer trefniadau arfarnu ac mae'r adroddiadau yn nodi gwybodaeth fanwl wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau

27 Roedd adroddiadau'r Cyngor i'r aelodau yn cyflwyno amrywiaeth o ddewisiadau darparu gwasanaethau ar gyfer rhai o'r enghreifftiau y gwnaethom edrych arnynt yn rhan o'r adolygiad hwn. Roedd y cynigion i newid goleuadau stryd yn cynnwys wyth dewis ac roedd ail gam y gweithredu yn ystyried pedwar dewis arall. Nodwyd y rhain yn glir yn adroddiad y Cabinet ac fe'u hatgyfeiriwyd i graffu arnynt. Roedd y dull yn wahanol yn achos newidiadau'r Cyngor i'r ddarpariaeth llyfrgelloedd; adolygwyd y gwahanol ddewisiadau gan Fwrdd Adolygu Llyfrgelloedd y Cyngor, yna derbyniodd y cabinet a'r pwyllgor craffu gyfres o argymhellion.

28 Cefnogir cynigion y Cyngor i newid gwasanaethau gan wybodaeth briodol a manwl. Er enghraifft, darparwyd llawer o wybodaeth gefndir ynglŷn â'r cynigion ynghylch goleuadau stryd a pharcio ceir. Roedd adroddiad y Cabinet ar newidiadau arfaethedig i ffioedd disgyblion ysgol hefyd yn cynnwys ffigyrau defnydd ac ariannol clir i gynorthwyo'r rhai a fyddai'n gwneud penderfyniadau. Roedd hyn yn cynnwys cyfanswm nifer, cost gyfartalog a chymhorthdal cyfartalog fesul disgybl.

29 Yn achos goleuadau stryd, sefydlwyd 'Bwrdd Goleuadau Rhannol yn y Nos' i ystyried newidiadau i oleuadau stryd. Roedd y Bwrdd yn cynnwys swyddogion o'r Adran Priffyrdd a Pheirianneg, Diogelwch ar y Ffyrdd, Diogelwch Cymunedol a'r Heddlu. Defnyddiodd y Bwrdd fatrics risg i ddadansoddi'r stoc a chafodd copi o'r matrics risg hwn a'r wybodaeth esboniadol gysylltiedig eu cynnwys yn yr adroddiad i'r Cabinet a'r pwyllgor craffu.

30 Ar gyfer rhai enghreifftiau y gwnaethom edrych arnynt, gwnaethpwyd gwaith craffu cyn gwneud penderfyniad gan y pwyllgorau craffu. Yn achos goleuadau stryd, derbyniodd Pwyllgor yr Amgylchedd a'r Economi (Pwyllgor yr Amgylchedd ac Adfywio yn ddiweddarach) adroddiad y Cabinet ar Strategaeth Lleihau Ynni Goleuadau Stryd er gwybodaeth. Fodd bynnag, ar gyfer ail gam y gweithredu fe'u gwahoddwyd i ystyried dewisiadau a gwneud gwaith craffu cyn penderfyniad y Cabinet. Derbyniodd y Cabinet eu hargymhelliad.

31 Yn achos parcio ceir, gwahoddwyd y pwyllgor craffu i nodi sylwadau ar gynigion cyn i'r Cabinet wneud penderfyniad. Mynegodd Pwyllgor yr Amgylchedd ac Adfywio nifer o bryderon. O ganlyniad, gofynnodd y Cabinet i swyddogion wneud rhagor o waith.

32 Mae Canllawiau Achos Busnes rhaglen ail-lunio gwasanaethau'r Cyngor yn disgrifio 'Proses Datblygu Prosiect Ail-lunio Gwasanaethau'. Mae'r broses yn nodi sut y bydd cynigion y rhaglen ail-lunio gwasanaethau yn cael eu datblygu, o nodi cyfleoedd i fonitro ar ôl gweithredu. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi pa un ai cyfrifoldeb y Bwrdd Her, Bwrdd y Rhaglen, y Cabinet neu'r pwyllgor craffu yw cymeradwyo neu roi sicrwydd ar bob cam o'r broses. Mae Proses Ddatblygu Ail-lunio Gwasanaethau yn golygu y dylid cofnodi datblygu a dewis opsiynau drwy'r camau datblygu.

33 Mae'r Canllawiau Achos Busnes yn nodi y bwriedir i achosion busnes amlinellol fynd i'r Cabinet a'r pwyllgor craffu. Os oes newidiadau o bwys, dylai achosion busnes terfynol hefyd fynd i'r Cabinet ac i'r pwyllgor Craffu. Mae hyn yn golygu bod yr ystod lawn o ddewisiadau a'r broses arfarnu dewisiadau wedi ei chynllunio i fod yn dryloyw ac yn destun herio. Yn ystod ein gwaith maes dywedodd swyddogion wrthym bod y dull achos busnes yn hyblyg ac mai'r bwriad yw ei ddefnyddio mewn modd cymesur.

34 Trwy lynu yn gyson at y camau a amlinellir yn y Canllawiau Achos Busnes, dylai'r Cyngor sicrhau bod pwyllgorau craffu yn gallu ystyried newidiadau sylweddol i wasanaethau ar y cam arfarnu dewisiadau. Mae cynnig mwy diweddar y Cyngor i newid gofal seibiant ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu yn enghraifft lle cafodd craffu ei gynnwys yn y broses gwneud penderfyniadau. Yn yr achos hwn, rhoddwyd dau gyfle i'r Pwyllgor Craffu Byw yn Iach a Gofal Cymdeithasol ddau gyfle i ystyried y cynnig. Trafodwyd y cynnig amlinellol cyn datblygu'r achos busnes ac yna gwnaethpwyd gwaith craffu cyn gwneud penderfyniad ar fanylion yr achos busnes cyn iddo fynd i'r Cabinet ar gyfer penderfyniad.

## Mae gan y Cyngor drefniadau corfforaethol effeithiol i ymgynghori â rhanddeiliaid, ond ceir rhai enghreifftiau lle gellid cryfhau'r ymgynghori

35 Mae tîm cyfathrebu'r Cyngor yn rhoi cefnogaeth a chyngor i feysydd gwasanaeth ar ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Er bod y rhan fwyaf o'r ymarferion ymgynghori yn cael eu rheoli gan y maes gwasanaeth perthnasol, y tîm cyfathrebu

corfforaethol sy’n arwain ymgynghoriadau â phroffil uwch. Ar adeg yr adolygiad hwn, roedd y tîm cyfathrebu yn adolygu Fframwaith Ymgysylltu Cyhoeddus y Cyngor. Mae’r Cyngor yn bwriadu pwysleisio pwysigrwydd gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o’r wybodaeth sydd ganddo eisoes yn rhan o’r fframwaith diwygiedig. Esboniodd swyddogion sut y caiff ymgynghori ac ymgysylltu eu cynnwys yn rhan o weithgaredd cynllunio integredig diwygiedig y Cyngor a gaiff ei reoli gan y Bwrdd Mewnwelediad trawsadrannol. Swyddogaeth y Bwrdd Mewnwelediad yw sicrhau bod yr amrywiol weithgareddau cymorth sy’n sail i gyflawni’r Cynllun Corfforaethol yn cael eu monitro a’u rheoli yn rheolaidd.

36 Mae gan y Cyngor hefyd uchelgais clir i wella ei bwyslais ar ddata cydraddoldeb a gwella ymgysylltiad â grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Er enghraifft amcan gyntaf ei Gynllun Cydraddoldeb strategol ar gyfer 2016-20 yw:

> ‘casglu a dadansoddi data gwasanaeth fesul nodwedd warchodedig er mwyn i wasanaethau fodloni anghenion amrywiol y cyhoedd’[7].

Diben yr amcan yw dod i wybod pwy sy’n defnyddio gwasanaethau, nodi bylchau a rhwystrau a sicrhau bod gwasanaethau yn bodloni anghenion grwpiau sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig.

37 Mae’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hefyd yn cynnwys yr amcan canlynol:

> ‘ceisio safbwyntiau grwpiau â nodweddion gwarchodedig ar newidiadau arfaethedig i bolisïau, cyllidebau a gwasanaethau’[8].

Cefnogir hyn gan gam gweithredu i ‘adolygu dulliau ymgysylltu i sicrhau ein bod yn cyrraedd grwpiau ‘nas clywir yn aml’’. Dylai hyn helpu i sicrhau bod safbwyntiau pobl a nodweddion gwarchodedig yn cael eu hystyried pan fo newidiadau sylweddol i wasanaethau yn yr arfaeth.

38 Ymgynghorodd y Cyngor ar ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2016-2020 a’i gynigion ar gyfer cyllideb 2016-17 yn rhan o’r un ymarfer. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 9 Rhagfyr 2015 a 20 Ionawr 2016 a’r prif ddull oedd arolwg ar-lein. Ceisiodd y Cyngor ddysgu o ymarfer y flwyddyn flaenorol trwy ddarparu gwybodaeth ychwanegol i gyd-fynd â’r arolwg ar-lein i sicrhau bod yr ymatebwyr yn gallu darparu barn gytbwys. Roedd hyn yn cynnwys cyfres o dudalennau gwe yn amlinellu sefyllfa ariannol gyfredol y Cyngor, y gwaith a wnaethpwyd a’r arbedion a wnaethpwyd hyn yma, a chanllawiau ar y cwestiynau cyffredin a ofynnir am y gyllideb[9]. Fodd bynnag, dim ond cyfanswm cymharol fach o 209 o ymatebion a gafwyd i’r arolwg. Mae’r Cyngor yn cydnabod bod hon yn gyfradd ymateb is nag mewn blynyddoedd blaenorol (er mai dim ond 401 o ymatebion a gafwyd i’r arolwg ar-lein yn ystod yr ymgynghoriad ar gyllideb 2015-16). Mae’n priodoli hyn i’r cyfnod ymgynghori byrrach y mae’n honni iddo fod ‘o ganlyniad i oedi gan Lywodraeth

[7] Cyngor Bro Morgannwg, **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020**, Ebrill 2016

[8] Ibid

[9] Adroddiad cabinet: Cynigion Terfynol ar gyfer y Gyllideb Refeniw 2016-17 Atodiad B: Cynllun Corfforaethol 2016-20 a’r Adroddiad Ymgynghori ar Gyllideb 2016-17, 22 Chwefror 2016, Cyngor Bro Morgannwg

Cymru wrth gyhoeddi'r cyllid'[10]. Ymgynghorodd y Cyngor â'i Fwrdd Gwasanaeth Lleol hefyd yn ogystal â phartneriaid cyngor tref a chymuned a'i fforymau rhanddeiliaid; y Fforwm Strategaeth 50+, Cabinet Ieuenctid y Fro a grŵp cymorth i Bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol lleol. Casglodd y Cyngor safbwyntiau'r rhanddeiliaid hyn drwy drafodaethau a hwyluswyd, ymatebion i'r arolwg ar-lein neu ymatebion ysgrifenedig ar wahân.

39 Mae ymgynghori wedi bod yn fater dadleuol ar gyfer rhai o'r newidiadau i wasanaethau y gwnaethom edrych arnynt oherwydd bod rhai o'r newidiadau i wasanaethau eu hunain wedi bod yn ddadleuol. Yn benodol, roedd aelodau craffu ac aelodau o'r cyhoedd yn feirniadol o'r Cyngor am y diffyg ymgysylltu ar gynigion i gyflwyno ffioedd talu am barcio yn y Barri ac yn y Bont-faen. Mae cofnodion cyfarfod Pwyllgor Craffu ar yr Economi a'r Amgylchedd yn dangos bod nifer o'r Aelodau yn pryderu am y cyfeiriadau niferus at y diffyg ymgynghori a chytunwyd y dylid bod wedi cynnal trafodaethau manylach[11]. Fodd bynnag, rydym ni yn ymwybodol bod swyddogion wedi mynychu nifer o gyfarfodydd gyda masnachwyr i esbonio'r rhesymeg am y newidiadau a awgrymwyd ar gyfer gwasanaethau ac i ystyried safbwyntiau masnachwyr ar y newidiadau hynny.

40 Ni wnaeth y Cyngor ymgynghori â'r cyhoedd ar y newidiadau arfaethedig i'r goleuadau stryd, ond yn hytrach penderfynwyd y byddent yn monitro cwynion ar ôl gweithredu'r newid. Roedd y newidiadau i incwm ffioedd a thaliadau mewn lleoliadau treftadaeth a chefn gwlad yn cynnwys ymgynghori ag aelodau'r ward ond mae'n ymddangos nad ategwyd hyn gan ymgynghoriad cyhoeddus.

41 Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn darparu rhagor o gyfleoedd i'r cyhoedd gymryd rhan yn y prosesau gwneud penderfyniadau drwy greu'r cyfle i aelodau o'r cyhoedd gofrestru i siarad mewn cyfarfodydd. Yn ogystal â galluogi cofrestru cwestiynau ar gyfer y Cyngor, mae'r cyfleuster wedi ei ymestyn er mwyn galluogi cofrestru cwestiynau ar gyfer y Pwyllgorau Craffu, y Pwyllgor Cynllunio, ac i gynyddu cyfranogiad y cyhoedd yn y broses graffu. Siaradodd cynrychiolwyr masnachwyr ym Mhwyllgor yr Economi a'r Amgylchedd ynglŷn â'r taliadau arfaethedig am barcio ceir. Caiff aelodau etholedig ac aelodau o'r cyhoedd awgrymu pwnc i'r pwyllgorau craffu ei ystyried hefyd.

42 Mae cofnodion, agendâu ac adroddiadau cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau ar gael ar wefan y Cyngor. Mae Blaenraglenni Gwaith y Cabinet a Phwyllgorau Craffu'r Cyngor ar gael hefyd ar wefan y Cyngor, ond mae manylion yr eitemau sydd i'w hystyried yn brin ac mae lle i gynnwys mwy o fanylion ar ddiben a natur yr eitemau sydd i ddod er mwyn gwella tryloywder y trefniadau. Dylai'r ffaith bod yr wybodaeth hon ar gael, a dulliau sy'n ategu ymgysylltu â'r cyhoedd, gael effaith gadarnhaol ar wneud penderfyniadau ynghylch newid gwasanaethau.

[10] Ibid

[11] Cofnodion Pwyllgor Craffu ar yr Economi a'r Amgylchedd, 1af Medi 2015, Cyngor Bro Morgannwg

## Mae trefniadau llywodraethu y Cyngor yn gwneud darpariaeth glir ar gyfer monitro effaith newidiadau sylweddol i wasanaethau ac, os cânt eu defnyddio'n systematig, dylent helpu i sicrhau bod y gwaith monitro yn dryloyw ac wedi ei gynnwys yn gyson mewn newidiadau i wasanaethau

43 Mae gan y Cyngor drefniadau sydd wedi eu nodi'r glir ar gyfer monitro effaith rhai o'r newidiadau i wasanaethau. Er enghraifft, mae'r Cyngor wedi sefydlu Cytundebau Lefel Gwasanaeth â'r llyfrgelloedd a drosglwyddwyd; maent yn cynnwys safonau perfformiad a'r hyn y gall y Cyngor ddisgwyl ei weld yn cael ei gyflawni, sy'n gysylltiedig â safonau llyfrgelloedd Cymru. Mae'r Cyngor wedi nodi trefniadau ar gyfer monitro effaith drwy Fwrdd Rhaglen Cyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol o ran newidiadau i wasanaethau yn y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Cabinet hefyd wedi cynnal, neu mae'n bwriadu cynnal, gwaith monitro ar effaith rhai o'r newidiadau i wasanaethau gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â pharcio, llyfrgelloedd a goleuadau stryd. Mae'r Pwyllgor Craffu wedi adolygu effaith rhai o'r newidiadau i wasanaethau ar ôl eu gweithredu, er enghraifft newidiadau i oleuadau stryd. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau monitro a'r mesurau wedi eu nodi ar adeg gwneud y penderfyniad bob amser.

44 Mae Canllawiau Achos Busnes rhaglen ail-lunio gwasanaethau y Cyngor yn sefydlu sail fwy systematig ar gyfer monitro effaith newidiadau sylweddol i wasanaethau. Maent yn nodi pryd y bwriedir cytuno ar drefniadau monitro ac maent yn ceisio sicrhau y gellir monitro'r buddion a ragwelir a rheoli'r risgiau. Maent yn nodi y dylai cam monitro'r newidiadau i wasanaethau gynnwys cynllun gwireddu buddion sy'n ystyried y buddion a nodir yn yr achos busnes strategol, gann sefydlu targedau ar gyfer pob un a neilltuo camau gweithredu a chyfrifoldebau ar gyfer eu cyflawni. Mae'r Canllawiau Gweithio'n Gydweithredol ar gyfer Rheolwyr y Cyngor yn nodi y dylai'r Rheolwr Prosiect penodedig greu a chynnal dogfennau rheoli prosiect er mwyn rheoli prosiectau a sicrhau eu bod yn cyflawni'r buddion a ragwelir.

45 Mae Canllawiau Achos Busnes rhaglen ail-lunio gwasanaethau y Cyngor hefyd yn nodi cyfrifoldeb ac atebolrwydd clir o ran swyddogaeth graffu y Cyngor ar adegau priodol wrth benderfynu ar newid gwasanaethau, gan gynnwys gwireddu buddion.

46 Yn ein hadroddiad Asesu Corfforaethol (Awst 2016) gwnaethom adrodd ar y newidiadau yr oedd y Cyngor yn eu gwneud i'w drefniadau craffu. Gwnaeth y Cyngor ail-bennu cylchoedd gwaith y pum pwyllgor craffu er mwyn adlewyrchu pedwar canlyniad llesiant y Cyngor, gan gynnal un Pwyllgor Craffu ac Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol (gweler paragraff 14). Mae'r newidiadau yn dangos pwyslais y Cyngor ar sicrhau bod gweithgaredd craffu yn canolbwyntio ar ganlyniadau a bod amrywiaeth ehangach o wybodaeth drawsbynciol yn cael ei hystyried. Mae'r trefniadau newydd yn rhoi cyfle i ganolbwyntio ar y canlyniadau sydd i'w cyflawni drwy newid gwasanaethau ac effaith y canlyniadau hynny.

47 Mae’r Cyngor hefyd wedi sefydlu trefniadau pontio wrth weithredu newid i wasanaethau yn gysylltiedig â llyfrgelloedd. Mae rhaglen hyfforddi wedi ei gweithredu ar gyfer gwirfoddolwyr ar weithredu llyfrgell a oedd yn cynnwys materion fel iechyd a diogelwch a defnyddio systemau rheoli, ac mae cymorth ar-lein ar gael ym mhrif lyfrgell y Cyngor hefyd. Mae’r Cyngor hefyd wedi cynorthwyo’r llyfrgelloedd a drosglwyddwyd i ddatblygu achosion busnes ac mae’n gweithio gyda nhw i nodi cyfleoedd i gael gafael ar gyllid ychwanegol.

## Mae’r Cyngor yn dysgu o brofiad ei newidiadau diweddar i wasanaethau ac mae’n gwella ei drefniadau llywodraethu cysylltiedig o ganlyniad i hynny

48 Cynhaliodd y Cyngor adolygiad cynhwysfawr o’i drefniadau llywodraethu yn 2015 a dechreuodd weithredu newidiadau dilynol yn ystod 2016. Roedd yn cynnwys gostwng nifer y swyddi Cabinet ac ailstrwythuro pwyllgorau craffu y Cyngor (gweler paragraff 42).

49 Mae cynllunio corfforaethol a gwasanaethau y Cyngor bellach wedi ei gyfochri â’i amcanion corfforaethol diwygiedig sy’n ystyried gofynion Deddf LlCD. Mae gan ymwreiddio datblygiad cynaliadwy a chymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy’r Ddeddf y potensial i gryfhau’r trefniadau ymhellach ar gyfer penderfynu ar newid sylweddol i wasanaethau.

50 Mae’r ymwybyddiaeth o’r broses Asesu’r Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei amlygu yn y Cyngor yn dilyn her adolygiad barnwrol i benderfyniad y Cabinet a wnaethpwyd ym mis Mawrth 2015 ynghylch Adolygiad y Cyngor o Lyfrgelloedd Cymunedol. Yn dilyn hyn, mae’r Cyngor wedi darparu hyfforddiant i’w staff i wella eu dealltwriaeth o’r broses. Mae’r Cyngor wedi adolygu ei broses Asesu’r Effaith ar Gydraddoldeb ac wedi gofyn i’w swyddogaeth Archwilio Mewnol gyfrannu at yr adolygiad hwn (gweler paragraff 23). Mae prosesau ar gyfer datblygu Asesu’r Effaith ar Gydraddoldeb bellach yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion mewn adrannau gysylltu â’r tîm cydraddoldeb pan fyddant yn cael eu datblygu. Mae’r swyddogion cydraddoldeb corfforaethol wedi diwygio’r ffurflenni Asesu’r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd. Maent yn gobeithio diwygio’r adran gydraddoldeb o ffurflen adroddiad y Cabinet i sicrhau y cyfeirir at wybodaeth o’r Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn y prif adroddiad. Sylwasom fod enghreifftiau o adroddiadau yn tynnu sylw aelodau at ystyriaethau cydraddoldeb. Er enghraifft, roedd yr adroddiad yn nodi cynnig i newid gofal seibiant i oedolion ag anableddau dysgu yn cynnwys y canlynol:

> 'Bydd aelodau'n ymwybodol o'u dyletswydd i roi ystyriaeth ddyledus i'r effaith y gallai unrhyw newidiadau a gynigir ei chael ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig wrth wneud penderfyniad'[12].

Bydd cam o'r fath yn sicrhau bod cydraddoldeb yn ystyriaeth amlwg wrth wneud penderfyniadau ar newid gwasanaethau, gan helpu'r Cyngor i ddangos ei fod yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau statudol.

51 Mae'r Cyngor wedi ceisio gwella ei ymgynghoriad blynyddol ar y cynllun corfforaethol a'r cynigion ar gyfer y gyllideb drwy wella ansawdd yr wybodaeth y mae'n ei darparu i ymatebwyr (er y pwyntiau a wnaed ym mharagraff 35). Gwnaeth y Cyngor gynnwys y cwestiwn canlynol yn ymgynghoriad 2016-17 i gefnogi'r broses ddatblygu:

> 'a ydych chi'n credu bod y Cyngor yn darparu digon o wybodaeth, er enghraifft trwy ei wefan, ynghylch sut y pennir y gyllideb ac am y materion y mae'n rhaid eu hystyried wrth wneud hynny?'

Roedd 39% o'r ymatebwyr o'r farn bod y Cyngor yn darparu digon o wybodaeth, ond roedd 61% o'r farn nad oedd yn gwneud hynny. Mae'r Cyngor wedi nodi y dylai wneud mwy i roi gwybodaeth i drigolion trwy gydol y flwyddyn a sicrhau ei fod yn gallu darparu ymateb prydlon i'r ymgynghoriad blynyddol.

52 Ar adeg yr adolygiad hwn, roedd y Cyngor yn diweddaru ei Fframwaith Ymgysylltu â'r Cyhoedd. Bwriedir i'r fersiwn ddiwygiedig bwysleisio'r angen i'r Cyngor wneud gwell defnydd o'r wybodaeth sydd ganddo eisoes (gweler paragraff 32).

[12] **Report of the Director of Social Services: Reshaping Services - Review of Respite Care for Adults with Learning Disabilities** 22 Tachwedd 2016, Cyngor Bro Morgannwg

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru